# Strategaeth Gyfalaf 10 Mlynedd Gorllewin Cymru

## Gorffennaf 2023

## Fersiwn Hawdd ei Ddarllen



**Beth yw strategaeth?**

Strategaeth yw'r hyn sydd angen ei wneud.



A sut i wneud iddo ddigwydd.

**Beth yw Cyfalaf?**

Yn y fersiwn Hawdd ei Darllen hon, ystyr Cyfalaf yw "pethau" – adeiladau neu bethau eraill sy'n cael eu defnyddio i helpu pobl yng Ngorllewin Cymru.

| | |
|---|---|
|  | Mae'r **strategaeth gyfalaf** hon yn dweud beth sydd angen i ni ei wneud i wella Gorllewin Cymru. |
|  | Mae Gorllewin Cymru yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. |
|  | Byddwn yn gwneud pethau'n well drwy wario arian ar adeiladau a systemau sydd eu hangen ar bobl. |
| Llywodraeth Cymru Welsh Government | Mae'r arian yn dod o ddwy gronfa Llywodraeth Cymru. |
|   | Fe'u gelwir yn Gronfa Gyfalaf Integredig ac Ail-gydbwyso a'r Gronfa Tai â Gofal. |
|  | I ddarganfod beth sydd ei angen, rydym wedi siarad â llawer o bobl. |

| | |
|---|---|
|  | Yn ogystal ag ystyried llawer o gynlluniau eraill. |
|  | Mae **Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach** yn gynllun pwysig. |
|  | Mae'n dweud sut mae angen i ni wneud ein hardal yn fwy iach. |
| | Gallwch weld fideo amdano yma. [https://www.youtube.com/watch?v=mR571BtWD4M](https://www.youtube.com/watch?v=mR571BtWD4M) |
|  | Mae'n bwysig iawn bod pob un ohonom yn gweithio gyda'n gilydd. |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru West Wales Regional Partnership Board | **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru** fydd yn arwain hyn. |
| | |

| | |
|---|---|
|  | Gallwch ddod o hyd iddo drwy fynd i [https://wwrpb.org.uk/cy/](https://wwrpb.org.uk/cy/) |
|  | Bydd **Cynllun Cyflawni** yn cael ei wneud. |
|  | Bydd hyn yn dweud beth fyddwn ni'n ei wneud. A phryd. |
|  | Mae gan y **strategaeth** 4 prif flaenoriaeth: |

**Beth yw blaenoriaethau?**

Mae hyn yn golygu y pethau pwysicaf.

**Blaenoriaethau Strategaeth Gyfalaf**

- Defnyddio'r cyllid a'r sgiliau sydd gennym i wneud i brosiectau ddigwydd
- Meithrin gwybodaeth, sgiliau a phrofiad am brosiectau cyfalaf ar draws y rhanbarth
- Cynllunio pa brosiectau all ddigwydd a phryd
- Sicrhau bod y bobl gywir yn cymryd rhan, a bod ffyrdd da o wirio ei fod yn mynd yn dda

**Bydd y strategaeth yn creu "gwasanaethau ac asedau modern, hygyrch a chynaliadwy sy'n cefnogi preswylwyr Gorllewin Cymru."**

**Mae hyn yn golygu**

Lleoedd a gwasanaethau i bawb sy'n:


- Gallu cael eu defnyddio gan bawb
- Para am amser hir
- Edrych ar ôl y blaned
- Cyfoes


**Wrth siarad â phobl, dywedon nhw fod angen i brosiectau wneud y canlynol:**

- *Gwella llesiant*
- *Gweithredu i helpu ein pobl hŷn – mae mwy o bobl hŷn nawr*
- *Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn parhau i gael gofal da*
- *Gwneud mwy o leoedd i bobl â phroblemau cymhleth fyw*
- *Cysylltu pethau gyda'i gilydd yn well*
- *Gwneud ansawdd adeiladau'n well*
- *Defnyddio mwy o dechnoleg*
- *Rhoi gwerth am arian*
- *Costio llai i'w cynnal*
- *Bod yn dda i'r blaned*
- *Para am amser hir*
- *Bod yn hawdd i'w cyrchu*
- *Gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau*

**Bydd y cynllun yn gwneud pob un o'r rhain.**

| | |
|---|---|
|  | Mae llawer o waith wedi'i wneud.<br><br>Megis: |
|  | Gofyn i bobl am syniadau |
|  | Darllen cynlluniau a deddfau cenedlaethol a sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu cynnwys. |
|  | Gwneud cytundeb ynglŷn â sut i weithio. |
|  | Dod o hyd i bobl i wneud y gwaith. |

<table>
<tr>
<td>




</td>
<td>Gwneud dadansoddiad SWOT ar wneud y cynllun a sut y gellir ei gyflawni mewn 10 mlynedd.<br><br>Mae SWOT yn golygu edrych ar yr hyn a fydd yn gweithio'n dda a pha risgiau sy'n bodoli.</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Mae'r 3 chyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio.</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Gyda'r Trydydd Sector a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</td>
</tr>
</table>

**Mae'r Trydydd Sector yn golygu:**

Elusennau a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phobl mewn cymunedau.

**Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn golygu:**

Sefydliadau sy'n darparu tai i bobl sydd â rhenti is.


Rhan fawr o'r cynllun fydd **Rhwydweithiau Cymunedol Integredig.**

**Mae Rhwydweithiau Cymunedol Integredig yn:**

Un lle mewn tref neu fannau lle gall pobl gael llawer o

| | |
|---|---|
|  | Bydd ganddynt Ganolfan Iechyd a Llesiant. |
|  | A lle i gael gwybodaeth a chyngor. |

| | |
|---|---|
|  | A phobl sydd â phrofiad mewn pethau fel anabledd dysgu ac iechyd meddwl. |
|  | Mae'n rhoi pethau mewn un lle. |
|  | Ac mae'n cysylltu pobl gyda'i gilydd. |





**Mae llawer o brosiectau eraill ar y gweill.**

**Dyma rai ohonyn nhw.**

| Prosiect | Pwy sy'n ei wneud? |
|---|---|
| **Hwb Caerfyrddin**<br>Canolfan fodern a hygyrch yng nghanol Caerfyrddin. Bydd yn cysylltu gwasanaethau iechyd gyda'i gilydd ac yn canolbwyntio ar atal. Bydd yn cynnwys y celfyddydau, dysgu a hamdden felly mae'n fan lle gall pawb fynd. | Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Y Bwrdd Iechyd<br><br>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| **Pentre Awel**<br>Hwb iechyd a llesiant mawr lle bydd y cyngor, y bwrdd iechyd, busnesau, elusennau a phrifysgolion yn gweithio gyda'i gilydd. Bydd yn rhywle ar gyfer hamdden, addysg, ymchwil, busnesau newydd a hyrwyddo iechyd. | Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Y Bwrdd Iechyd<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol Caerdydd |
| **Canolfan Iechyd a Llesiant Abergwaun**<br>Bydd Canolfan Iechyd a Llesiant Abergwaun yn cynnwys<br>- Gweithwyr a chlinigau cymunedol<br>- Profion meddygol<br>- Siopau ar gyfer offer<br>- Fferyllfa gymunedol<br>- Lle i'r gymuned ei ddefnyddio | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br><br>Cyngor Sir Penfro |

| | |
|---|---|
| **Cylch Caron**<br>Mae'r prosiect yn gyfleuster iechyd a thai newydd yn Nhregaron, canolfan bwrpasol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; ynghyd â thai arbenigol ar gyfer unigolion ag anghenion gofal. | Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Y Bwrdd Iechyd |
| **Hwb Cymunedol Llanymddyfri**<br>Bydd Hwb Cymunedol Llanymddyfri yn cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r gymuned. | Y Bwrdd Iechyd<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Partneriaid trydydd sector |
| **Canolfan Gofal Integredig Aberystwyth**<br>Bydd y prosiect yn dod ag ystod o wasanaethau cyhoeddus ynghyd o dan yr un to. | Y Bwrdd Iechyd<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Haverfordia House -** adeiladu canolfan 12 gwely i helpu pobl sy'n gadael yr ysbyty, ynghyd ag 20 fflat i bobl hŷn. | Cyngor Sir Penfro |
| **Doc Penfro -** prynu a diweddaru dau le i bobl fyw ger yr ysbyty. | Cyngor Sir Penfro |
| **Heol y Brandy, Pontyberem a Theras Coleshill, Sir Gaerfyrddin a Thawel Fan, Llanelli**<br>Diweddaru tai i wneud iddynt weithio i bobl ag anableddau dysgu ac anghenion eraill. | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| | |
|---|---|
| **CAMU 'MLAEN - Aberystwyth**<br>Cyfleuster Anableddau Dysgu Rhanbarthol Newydd gyda 10 lle i bobl fyw. | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Adain Ddementia Hafan Deg a Gardd Synhwyraidd**<br>Lle newydd i bobl â dementia fyw. | Cyngor Sir Ceredigion |
| **West Lodge, Llanismel**<br>Diweddaru lle byw diogel i blant a phobl ifanc. | Cyngor Sir Penfro |
| **Fferm Llwynon – a elwir bellach yn Rock Farm**<br>Lle i 16 o bobl ag anghenion ychwanegol i fyw. | Cyngor Sir Penfro |
| **Prosiect Pontio, Sir Gaerfyrddin**<br>Creu tŷ i bobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol i fyw wrth fynychu colegau lleol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Sir Gaerfyrddin - Rhyd y Gors**<br>Diweddaru lle byw diogel i blant a phobl ifanc. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Llety diogel ar gyfer Plant - Ceredigion - Felin-fach**<br>Diweddaru lle byw diogel i blant a phobl ifanc. | Cyngor Sir Ceredigion |

| | |
|---|---|
|  | **Beth fydd yn digwydd nesaf?** |
|  | Mae angen gwneud llawer mwy.<br><br>Megis: |
|  | Ysgrifennu'r **Cynllun Cyflawni.** |
|  | Gwneud ffyrdd teg i brosiectau gynnig am arian. |
|  | Penderfynu pa brosiectau i'w gwneud yn gyntaf. |
|  | Cynnwys pobl a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw. |

| | |
|---|---|
|  | **Cwestiynau?** |
|  | Cystylltu â ni |
|  | [https://wwrpb.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/](https://wwrpb.org.uk/cy/cysylltwch-a-ni/) |